| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 21 Ionawr 2025 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol / Pennaeth Cyllid ac Archwilio |
| **Awdur yr adroddiad** | Pennaeth Cyllid ac Archwilio |
| **Teitl** | Dyraniadau Bloc Cyfalaf yng Nghynllun Cyfalaf 2025/26. |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Dyraniadau Bloc Cyfalaf i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2025/26.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rôl y Grŵp Craffu Cyfalaf (GCC) yw darparu adolygiad annibynnol o bob cynnig achos busnes ar gyfer buddsoddiad cyfalaf, ar wahân i gynlluniau dan £0.250 miliwn a gaiff eu hariannu'n gyfan gwbl gan gyllid grant allanol. Bu'r GCC yn ystyried y dyraniadau bloc ar gyfer 2025/26 a baratowyd gan bob gwasanaeth yn ei gyfarfod ar 29 Tachwedd, i baratoi ar gyfer pan fydd y Cyngor llawn yn ystyried y Cynllun Cyfalaf ar ddiwedd mis Ionawr 2025.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r egwyddorion ar gyfer cyllido cynlluniau cyfalaf fel y nodir yn yr adroddiad.

3.2 Bod y Cabinet yn cefnogi'r prosiectau a ddangosir yn Atodiad 2 i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2025/26, a'u hargymell i'r Cyngor llawn.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae Cynllun Cyfalaf y Cyngor yn cynnwys buddsoddi adnoddau sylweddol mewn ystod eang o asedau yn yr hirdymor i alluogi darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r asedau'n cynnwys adeiladau (megis ysgolion, gofod swyddfa a chartrefi gofal),

isadeiledd (megis priffyrdd a rhwydweithiau TG) ac asedau nad ydynt yn eiddo i'r Cyngor (megis gwaith i wella ac addasu cartrefi'r sector preifat).

4.2 Mae rhai cynlluniau cyfalaf yn rhai untro, yn golygu ailfodelu a / neu fuddsoddi yn y ffordd mae gwasanaethau yn cael eu darparu yn y dyfodol. Byddai enghreifftiau o gynlluniau diweddar yn cynnwys ein rhaglen adeiladu ysgolion, model gwastraff ac ailgylchu newydd, Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru, etc. Mae cynlluniau cyfalaf eraill angen dyraniad bloc blynyddol o gyllid cyfalaf. Gall y rhain fod yn gynlluniau cyfalaf o natur statudol / rheoleiddio. Roedd enghreifftiau'n cynnwys darparu cefnogaeth i wella ac addasu cartrefi'r sector preifat (Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl), addasiadau i ysgolion ar gyfer plant oedd ag anableddau ac unrhyw waith oedd ei angen i gadw adeiladau ar agor trwy fodloni gofynion Iechyd a Diogelwch. Mae cynlluniau cyfalaf hefyd sy'n cynnal, gwella neu'n ymestyn bywyd economaidd yr asedau oedd yn cael eu cadw ac isadeiledd a ddefnyddiwn i ddarparu gwasanaethau. Enghreifftiau o feysydd gwasanaeth sydd wedi eu cynnwys yw ysgolion, priffyrdd ac eiddo eraill etc.

4.3 Mae'r Cyngor yn cael adnoddau cyfalaf cyfyngedig gan Lywodraeth Cymru i gefnogi blaenoriaethau, anghenion a rhwymedigaethau'r Cyngor; fodd bynnag, mae ganddo rym i ariannu cynlluniau cyfalaf drwy fenthyca, ond rhywbeth dros dro yw hyn ac yn y pen draw, mae costau ac ad-daliadau unrhyw fenthyciad yn dod o gyllideb refeniw'r Cyngor. Rhaid i gynlluniau sy'n cael eu hariannu trwy fenthyca gael eu hystyried yn ofalus oherwydd yr effeithiau hirdymor ar gyllideb refeniw'r Cyngor.

4.4 Wrth osod y cyllidebau refeniw a chyfalaf ar gyfer 2024/25, bu i'r Cyngor gydnabod yr angen i gyfyngu effaith y cynllun cyfalaf ar y gyllideb refeniw a chymeradwywyd y dull a'r egwyddorion canlynol wrth bennu cymorth ar gyfer prosiectau cyfalaf:

- Y Cyngor i weithio tuag at roi cap ar y dyraniadau bloc at lefel y cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru.
- Materion Iechyd a Diogelwch brys i'w blaenoriaethu.
- Ystyriaeth o gynlluniau Buddsoddi i Arbed ble mae'r budd yn gostwng pwysau refeniw yn y tymor byr a/neu ganolig.
- Derbyniadau cyfalaf neu oedi i brosiectau eraill fydd yr unig ffynhonnell gyllid fydd ar gael ar gyfer 2024/25 a 2025/26.
- Cynlluniau a Ariennir trwy Grantiau – mwy o ddibyniaeth ar ddefnyddio cyllid grant mor effeithiol ag sy'n bosibl. Cynlluniau a ariennir yn gyfan gwbl gan grantiau

fyddai'r dewis a ffefrir yn amlwg, ond cydnabyddir y bydd gofyn am arian cyfatebol weithiau.

4.5 Wrth osod Cynllun Cyfalaf 2025/26 yng nghyfarfodydd Gorffennaf a Thachwedd, bu i'r Grŵp Craffu Cyfalaf ystyried sut i ehangu'r egwyddorion eang a ddatblygwyd yn 2024/25. Bu iddynt ganolbwyntio ar ostwng y dyraniadau bloc tuag at y lefel o gyllid cyfalaf a gafwyd gan Lywodraeth Cymru, a dybiwyd a fyddai'r un fath â chyllid 2024/25 (£6.185 miliwn).

4.6 Bu i wasanaethau gyflwyno sut y bydd y dyraniadau'n cael eu gwario yn 2025/26 a rhoddwyd asesiad o effaith a risg unrhyw ostyngiad mewn cyllid ar gyfer ystyriaeth a chraffu gan Aelodau. Roedd yr adolygiad hwn angen mewnbwn gan bob gwasanaeth, o ran eu lefel flynyddol o angen, a mewnbwn gan y Cabinet, y Grŵp Craffu Cyfalaf ac Aelodau'r meinciau cefn am eu blaenoriaethau. Bu i fforddiadwyedd a chysylltiadau â Chynllun y Cyngor arwain y trafodaethau a'r canlyniadau hynny. Cyfanswm y dyraniadau bloc ar gyfer 2025/26 a gefnogwyd gan GCC yn ei gyfarfod mis Tachwedd yw £7.227 miliwn (yn is na'r £8.362 miliwn yn 2024/25). Mae naratif i gefnogi argymhellion y Grŵp Craffu Cyfalaf wedi'i gynnwys fel Atodiad 1.

4.7 Mae Atodiad 2 yn dangos y dyraniadau bloc arfaethedig ac mae'r ffynhonnell gyllid a argymhellir ar gyfer pob un wedi'i hamlygu yn y golofn briodol. Mae'r blociau arfaethedig yn 2025/26, er yn is na 2024/25, dal angen £1.542 miliwn i'w ariannu o dderbyniadau cyfalaf, cronfeydd wrth gefn ac i raddau llawer llai benthyca darbodus. Mae'r pwyntiau canlynol wedi eu hystyried:

- Natur statudol rhai cynlluniau, er enghraifft y Grant Cyfleusterau i'r Anabl
- Gallai canlyniadau refeniw i rai cynlluniau, er enghraifft gostwng y dyraniad ar gyfer mân addasiadau, offer cymunedol a theleofal arwain at becynnau o ofal cymdeithasol yn cael eu comisiynu.
- Peidio â dyrannu mwy o gyllid yn 2025/26 i ddyraniadau bloc sydd â rhywfaint o lithriad o flynyddoedd blaenorol ac ystyried un flwyddyn ar y tro i'r dyraniadau bloc hynny i wario'r cyllid sydd ganddynt eisoes. Mae hyn yn annhebygol o fod yn gynaliadwy wrth fynd i 2026/27.
- Dyrannu llai i rai o'r dyraniadau bloc mwyaf ar gyfer eiddo a phriffyrdd wrth gydnabod y gellir gohirio rhywfaint o wariant ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, dylid nodi, mewn termau real, bod dyraniadau wedi eu gostwng yn effeithiol am nifer o

flynyddoedd oherwydd cynnydd uwch na chwyddiant i gostau adeiladu etc., ac mae gwaith angenrheidiol nawr yn pentyrru.

4.8 Yn Rhagfyr, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y cyllid cyfalaf oedd ar gael yn Setliad Dros Dro Llywodraeth Cymru. Dyraniad Sir Ddinbych ar gyfer 2025/26 yw £6.945 miliwn, mae hyn £0.760 miliwn yn uwch na'r lefel cyllid tybiedig uchod. Dangosir y cyllid ychwanegol hwn yn Atodiad 1 fel arian at raid ychwanegol am y tro, wrth i ni aros am fwy o wybodaeth gan LlC ar grantiau cyfalaf sydd ar gael yn 2025/26 a fydd o gymorth wrth bennu sut i ddyrannu'r cyllid ychwanegol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae prosiectau wedi'u hadolygu i sicrhau eu bod yn cyflawni amcanion corfforaethol y Cyngor.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 **Goblygiadau o ran cost**

Mae costau'r cynlluniau wedi'u dangos yn Atodiad 2.

6.2 **Goblygiadau Staffio/TGCh/llety**

Mae'n ofynnol llenwi ffurflen Achos Busnes ar gyfer pob prosiect newydd a bydd y Grŵp Craffu Cyfalaf yn trafod unrhyw oblygiadau penodol yn ystod y cam hwnnw.

6.3 **Asesiad o Effaith ar Newid Hinsawdd – Lliniaru ac Addasu**

Mae prosiectau cyfalaf newydd yn destun craffu gan y Grŵp Craffu Cyfalaf. Bydd pob achos busnes yn dangos, lle bo'n briodol, allyriadau tunelli carbon cyn ac ar ôl prosiect, gan nodi a yw'r prosiect yn cynyddu, lleihau neu ddim yn cael effaith ar allyriadau carbon. Yn ogystal, mae angen sicrhau bod prosiectau cyfalaf newydd yn ddiogel ar gyfer y dyfodol ac yn gallu addasu i newid yn yr hinsawdd.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Cwblhawyd Asesiad o Effaith llawn ar gyfer pob cais cyfalaf a adolygwyd gan y Grŵp Craffu Cyfalaf. Mae copi o bob Asesiad Lles unigol ar gael yn llyfrgell yr aelodau ar system Modern.gov.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Fe gymeradwyodd Penaethiaid Gwasanaeth gyflwyno'r ceisiadau, a chawsant eu hadolygu gan y Grŵp Craffu Cyfalaf yn dilyn hynny. Os cânt eu cymeradwyo gan y Cabinet, bydd y cynigion hyn yn ffurfio rhan o'r Gyllideb Gyfalaf lawn a fydd yn mynd o flaen y Cyngor i gael ei chymeradwyo ar 28 Ionawr.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Ar hyn o bryd, ffigur y Gyllideb Cyllid Cyfalaf yw £20.534 miliwn (2024/25) sy'n cyfateb i tua 7.6% o'n cyllideb refeniw net. Mae'n bwysig bod pob agwedd ar y gyllideb yn cyfrannu at sicrhau bod y Cyngor yn aros yn ariannol gynaliadwy dros y cyfnod anodd iawn sydd i ddod. Mae Aelodau wedi awgrymu bod y Cyngor yn ystyried lleihad o ran y rhaglen gyfalaf fel rhan o waith cyffredinol i osod cyllidebau cytbwys yn y dyfodol. Mae angen rhoi ystyriaeth i hyn ochr yn ochr â'r gofyniad i'r Cyngor barhau i fuddsoddi'n briodol yn ei asedau. Gall peidio â gwneud hynny achosi costau mwy sylweddol yn y tymor hir.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Risgiau posibl yw cynlluniau'n methu â gwneud cynnydd, colli grant ac amhariad ar wasanaethau. Byddai cyflwr asedau yn parhau i ddirywio pe na bai unrhyw fuddsoddiad yn cael ei wneud, a gallai hynny arwain at golli gwasanaethau pwysig.

10.2 Nid oes unrhyw brosiect cyfalaf heb risg. Fodd bynnag, mae'r Grŵp Craffu Cyfalaf yn adolygu'r holl gynlluniau sydd hefyd yn cael eu monitro a'u hadrodd yn barhaus.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

O dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.